Accessibility at The Great Hall – Video Transcript

Location- Balconi:

“At Cardiff Students’ Union we are proud to offer an inclusive live music experience for Deaf and Disabled customers, a place where everyone can experience live music comfortably and safely. I’m here to show you how we put accessibility first to make your visit enjoyable: from booking tickets to getting home.”

Location- outside on Senghennydd Road:

“We’ve designed every stage of your journey to be as smooth as possible. From level access at our Senghennydd Road entrance to our new lifts and accessible facilities, we’re here to make sure your night is stress-free.”

Location- Outside Sherman Theatre:

“Getting to the venue is simple and accessible. For those arriving by car, we have an accessible drop-off zone outside the Sherman Theatre, just a short flat walk to our Senghennydd Road entrance or street parking from 20 meters away”

Location- outside Cathays station:

“If you’re traveling by train, Cathays Station is just 200 meters away, and Cardiff Central Station is 1.2 miles from here. You’ll find step-free access at Cardiff Central, however Cathays does not currently have this facility”

Location- Senghennydd Road door:

“Enter through our Senghennydd Road door, marked with a blue feather flag, for direct access to the Box Office. The entrance features a motorised door and flat surfaces for a smooth journey. Both entry and exit of the building is a hard level surface. Once inside, our friendly staff will be on hand to check you in.

Location- Senghennydd Road in doorway:

"The security team will search your bags, coats and anything else that could conceal an object. They may use a torch. If you need to bring food or drink in for medical reasons, just let the door staff know.

Location- Lifts:

"If you require the lift to the venue upstairs the team will escort you, if you are able to walk up the 22 stairs then the team will point you in the right direction to wherever you need to go, including merch or the accessible viewing platform.”

Location- Toilets:

“Accessible toilets can be found on all levels inside the venue. The toilets are locked with a RADAR key which can be collected from any open bar or reception. Measurements, photos & further details of the toilets can be found on our website”

Location- Great Hall Bar:

“Our First Access Scheme gives Deaf and Disabled customers early entry by 15 minutes, allowing you to avoid crowds and settle in comfortably before the doors open to the public. You’ll have access to the foyer, bars, toilets, merch and cloakroom before the main doors open. Our Box Office, bars and cloakroom are fitted with hearing loops and our bars and merchandise stand feature lowered counters.”

Location- Balconi by glass viewing areas:

“For a perfect view of the stage, our 2 accessible viewing balconies offer reserved seating and dedicated spaces for wheelchair users. Stewards are always on hand to assist throughout the event and toilets are within a few meters reach.”

Hot food and drink is also available within 15 meters from the viewing balcony”

Location- Quiet area:

“The viewing balconies are close to our dedicated quiet areas & paramedic team, away from the crowds and music and if you need a companion to accompany you, we offer complimentary tickets to ensure you have the support you need.”

Location- Fire exit:

“Our evacuation procedures ensure your safety and take your individual access requirements into account. The Great Hall has audio and visual alarms throughout, including in all accessible toilets. Our stewards are trained to calmly direct and assist you when leaving the venue."

Location- The Great Hall:

“Applying for our accessibility services is quick and easy. Simply visit our website and complete the Accessibility Application Form. This form helps us understand your needs and ensure the right services are in place for your visit. Whether it’s the First Access Scheme, a companion ticket, or the accessible viewing balcony, registration is just a few clicks away. To apply, visit CardiffBoxOffice.Com

That’s where you’ll also find lots more detailed information about your visit to Cardiff Students’ Union. If you have any questions or specific requests, please get in touch at accessibility@cardiffboxoffice.com

Diolch for watching! We can’t wait to welcome you soon!”

Hygyrchedd yn Y Neuadd Fawr

Lleoliad – Y Balconi:

“Yma yn Undeb Myfyrwyr Caerdydd rydym yn falch cynnig profiad cerddoriaeth fyw cynhwysol ar gyfer cwsmeriaid byddar ac anabl. Yma gall pawb fwynhau cerddoriaeth fyw mewn cysur a diogelwch. Rydw i yma i ddangos sut rydym yn blaenoriaethu hygyrchedd er mwyn gwneud eich ymweliad yn un llwyddiannus, o archebu tocynnau i gyrraedd adref.”

Lleoliad – tu allan ar Ffordd Senghennydd:

“Rydym wedi cynllunio pob cam o’r siwrnai i fod mor ddidrafferth â phosib. O fynediad gwastad ar Ffordd Senghennydd i'n lifftiau newydd a chyfleusterau hygyrch, rydym yma i sicrhau cewch noson ddiffwdan.”

Lleoliad – tu allan i Theatr y Sherman:

“Mae cyrraedd y lleoliad yn syml a’n hygyrch. Ar gyfer y rheiny sy’n dod mewn car, mae gennym fan gollwng hygyrch tu allan i Theatr y Sherman, sydd pellter byr ar droed o’n mynediad ar Ffordd Senghennydd, neu barcio stryd o 20 metr i ffwrdd.”

Lleoliad – tu allan i orsaf Cathays:

“Os ydych yn teithio ar drên, mae Gorsaf Cathays 200 metr i ffwrdd yn unig, a Gorsaf Caerdydd Canolog 1.2 milltir i ffwrdd. Mae gan Gaerdydd Canolog fynediad di-risiau, ond ar hyn o bryd nid oes gan Cathays y cyfleuster hwn.”

Lleoliad – drws Ffordd Senghennydd:

“Dewch i mewn trwy’r drws ar Ffordd Senghennydd, wedi’i nodi gan faner las, am fynediad uniongyrchol at y Swyddfa Docynnau. Mae gan y mynediad drws wedi’i bweru gan fodur a lloriau gwastad ar gyfer siwrnai ddidrafferth. Mae gan fynediad ac allanfa’r adeilad lloriau caled a gwastad. Unwaith byddwch du fewn, bydd ein staff cyfeillgar wrth law i gynorthwyo.”

Lleoliad – cyntedd Ffordd Senghennydd:

"Bydd y tîm diogelwch yn chwilio eich bagiau, cotiau, ac unrhyw beth arall a allai guddio eitem. Efallai fe fyddan nhw’n defnyddio tortsh. Os oes angen i chi ddod â bwyd neu ddiod gyda chi am resymau meddygol, rhowch wybod i staff wrth y drws.

Lleoliad- Lifftiau:

"Os oes angen i chi ddefnyddio’r lifft er mwyn cyrraedd y lleoliad bydd y tîm yn eich hebrwng, tra os allwch gerdded i fyny’r 22 gris mi fyddan nhw’n eich cyfeirio at le bynnag hoffech fynd, gan gynnwys y stondin nwyddau a phlatfform gwylio hygyrch.”

Lleoliad - Toiledau:

“Gellir canfod toiledau hygyrch ar bob lefel yn y lleoliad. Mae’r toiledau wedi’u cloi gydag allwedd RADAR sydd modd ei gasglu o unrhyw far neu’r dderbynfa. Gellir canfod mesuriadau, lluniau, a manylion pellach am y toiledau ar ein gwefan.”

Lleoliad – Bar Y Neuadd Fawr:

“Mae ein Cynllun Mynediad Cyntaf yn rhoi mynediad cynnar i gwsmeriaid byddar ac anabl, gan eu galluogi i osgoi torfeydd a setlo cyn i'r drysau agor i'r cyhoedd. Cewch fynediad at y cyntedd, bariau, toiledau, stondin nwyddau ac ystafell gotiau cyn i'r prif ddrysau agor. Mae gan ein Swyddfa Docynnau, bariau ac ystafell gotiau ddolen glyw, ac mae gan ein bariau a stondin nwyddau cownteri isel.”

Lleoliad – Balconi gwylio hygyrch:

“Am olygfa berffaith o’r llwyfan, mae ein 2 balconi gwylio hygyrch yn cynnwys seddi wedi’u neilltuo ac ardaloedd pwrpasol ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn. Mae stiwardiaid bob tro wrth law i gynorthwyo ac mae’r toiledau o fewn cwpwl o fetrau.”

“Mae bwyd poeth a diodydd hefyd ar gael o fewn 15 metr i'r balconi.”

Lleoliad – Ardal dawel:

“Mae’r balconïau yn agos at ein hardaloedd tawel pwrpasol a thîm o barafeddygon, i ffwrdd o’r torfeydd a’r gerddoriaeth, ac os oes angen cyfaill arnoch rydym yn cynnig tocynnau am ddim i sicrhau bod gennych y gefnogaeth sydd ei hangen arnoch.”

Lleoliad – Allanfa dân:

“Mae ein gweithdrefnau gwacáu yn sicrhau eich diogelwch ac yn ystyried eich gofynion hygyrchedd personol. Mae gan y Neuadd Fawr larymau sain a gweledol ar draws y lleoliad, gan gynnwys yn y toiledau hygyrch. Mae ein stiwardiaid wedi’u hyfforddi i'ch cyfeirio a’ch cynorthwyo wrth adael y lleoliad.”

Lleoliad – Y Neuadd Fawr:

“Mae gwneud cais am ein gwasanaethau hygyrchedd yn broses gyflym a syml. Ewch i'n gwefan a llenwch y Ffurflen Gais Hygyrchedd. Mae’r ffurflen hon yn ein helpu i ddeall eich anghenion a sicrhau bod y gwasanaethau cywir mewn lle ar gyfer eich ymweliad. P’un ai hoffech ddefnyddio’r Cynllun Mynediad Cyntaf, derbyn tocyn cyfaill, neu ddefnyddio’r balconi gwylio hygyrch, mae’n hawdd cofrestru. I wneud cais, ewch i CardiffBoxOffice.Com

Dyna le dewch o hyd i wybodaeth fanwl am eich ymweliad ag Undeb Myfyrwyr Caerdydd. Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu geisiadau penodol, cysylltwch drwy accessibility@cardiffboxoffice.com

Diolch am wylio! Rydyn ni’n edrych ymlaen at eich croesawu’n fuan!”